# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 11

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Amrywiol*

### 186 Plant mewn llety cadw ieuenctid, carchar neu lety mechnïaeth etc

(1) Yn is-adran (2), ystyr “plentyn perthnasol” yw plentyn sydd, ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd—

(a) yn cael ei gadw’n gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu garchar,

(b) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, neu

(c) yn preswylio mewn unrhyw fangre arall am fod gofyniad i wneud hynny wedi ei osod ar y plentyn fel amod o roi mechnïaeth mewn achos troseddol.

(2) Pan fo plentyn perthnasol, yn union cyn iddo gael ei gollfarnu o drosedd—

(a) ag anghenion am ofal a chymorth sy’n cael eu diwallu gan awdurdod lleol o dan Ran 4,

(b) yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn rhinwedd cael llety wedi ei ddarparu iddo gan yr awdurdod, neu

(c) yn preswylio fel arfer yn ardal awdurdod lleol, ond na fo’n dod o fewn paragraff (a) neu (b),

mae’r plentyn i’w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai o fewn ardal yr awdurdod lleol hwnnw tra bo’n blentyn perthnasol (ac nid yw i’w drin fel pe bai’n preswylio fel arfer yn ardal unrhyw awdurdod lleol arall neu fel pe bai o fewn yr ardal honno).

(3) Nid yw’r darpariaethau a nodir yn is-adran (4) yn gymwys mewn perthynas â phlentyn sydd, ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd—

(a) yn cael ei gadw’n gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, neu

(b) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd.

(4) Y darpariaethau yw—
(a) adran 79 (darparu llety i blant mewn gofal);
(b) adran 80 (cynnal plant sy’n derbyn gofal);
(c) adran 81 (y ffyrdd y mae plant sy’n derbyn gofal i’w lletya a’u cynnal);
(d) adran 82 (adolygu achos plentyn cyn gwneud trefniadau amgen o ran llety);
(e) adran 109 (cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 2);
(f) adran 114 (cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 5 a phobl ifanc a fu gynt yn bobl ifanc categori 5);
(g) adran 115 (cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 6 a phobl ifanc a fu gynt yn bobl ifanc categori 6);
(h) paragraff 1 o Atodlen 1 (atebolrwydd am gyfrannu tuag at gynhaliaeth plant sy’n derbyn gofal).

(5) Nid yw adran 119 (defnyddio llety i gyfyngu ar ryddid) yn gymwys—
(a) mewn perthynas â phlentyn sydd, ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd—
(i) yn cael ei gadw’n gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, neu
(ii) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, na
(b) mewn perthynas â phlentyn sydd wedi ei remandio i lety cadw ieuenctid o dan adran 91 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

(6) Nid yw’r darpariaethau a nodir yn is-adran (7) yn gymwys mewn perthynas â phlentyn—
(a) sydd, ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd—
(i) yn cael ei gadw’n gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, neu
(ii) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, a
(b) yr oedd llety’n cael ei ddarparu iddo gan awdurdod lleol yn Lloegr o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989 yn union cyn iddo gael ei gollfarnu.

(7) Y darpariaethau yw—
(a) adran 21 (dyletswydd i asesu anghenion plentyn am ofal a chymorth);
(b) adran 37 (dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn);
(c) adran 38 (pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn).

(8) Gweler hefyd adran 187 am addasiadau pellach i ddarpariaethau’r Ddeddf hon mewn perthynas â’r canlynol—
(a) plant a gedwir yn gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, a
(b) plant sy’n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd.